

TRAWSGRIFIAD FIDEO: The Ultimate Kiss – Jacqueline de Jong mewn Sgwrs â Churadur yr Arddangosfa Juliette Desorgues

Iaith: Saesneg

Is-deitlau: Cymraeg, Saesneg

Juliette Desorgues: Felly dyma rai o'ch paentiadau cynharaf a wnaethoch rhwng dechrau a chanol y 60au.

Jacqueline de Jong: Ie, wel y ffordd y gallwch chi ei weld yw 61.

JD: Ie.

JDJ: Ie oherwydd bod yr un yna'n 62. Hynny yw, y gwahaniaeth yw, fi'n cael fy ffurf, fy ffurfiad i mewn i'r paentiadau, nid oedd yno eto mewn gwirionedd.

Ond rydw i bob amser yn ystyried yr un yma, "Mr. Homme Attaque", dyna'r un gyntaf lle mae gen i stori ffurfiol hefyd, lle rydw i'n dweud rhywbeth. Rwy'n meddwl bod rhywbeth gwir yn digwydd, sy'n wahanol iawn i'r hyn sydd bron yn ddi-ffigurol.

JD: Dyma hefyd pan fydd y math yma o ffigurau hybrid yn dechrau ymddangos mewn ffordd, ac er bod yma yn y math hwn o weithiau cynharach iawn roedd yn fwy haniaethol, ac yma mae yna fath o ymddangosiad o'r math yma o ffigurau anghenfil hybrid yr ydym yn ei weld trwy gydol eich celf mewn ffordd.

JDJ: Wel y mae mewn gwirionedd, y peth doniol yw, mae ar yr adeg pan oeddwn i'n gweithio ym Mharis, a dyna oedd fy nechreuad go iawn, a phan edrychaf ar yr ysgythriadau, yr oeddwn yn eu gwneud y flwyddyn honno, maen nhw i gyd, wel oedden nhw'n fwy cynhyrfus, ond roeddwn i bob amser yn rhoi llygaid i mewn iddyn nhw i gael math o, wel beth ddylen ni ddweud, o ffigwr yn yr haniaethol... dwi ddim yn ei alw'n wirioneddol haniaethol oherwydd ni all fod yn ffiguroliad. 'An-ffigurol', rwy'n credu ei fod yn derm gwell ar ei gyfer. Mae gan y rhain lawer o lygaid, llawer iawn.

JD: Mae yna lawer o lygaid.

JDJ: Mae yna lawer o lygaid, a thra yn yr un yma mae'n ddau ffigur sy'n gwrthdaro â'i gilydd, felly mae honno'n stori fwy eglur.

JD: Yn ddiddorol, wrth siarad am wrthdaro, rhywbeth mewn ffordd a ddarganfyddwn yn y paentiadau eraill hyn, y syniad hwn o drais, sy'n aml yn tanlinellu ...

JDJ: Yn hollol.

JD: A marwolaeth wrth gwrs hefyd, trais ond hefyd yr erotig sy'n dod allan llawer yn y gyfres hon, felly mae gennym ni'r Accidental Series a'r Suicide Series.

JDJ: Y peth doniol yw, dim ond nawr fy mod i'n sylweddoli, mae'r pedwar paentiad hwn o'r Suicide Series. Wel, y rhain yw'r Accidental Series, mae yna gardiau a phethau, math o ddamwain... Ond mae'n gyfuniad o'r trais a'r hiwmor.

JD: Ac mae hiwmor yn rhan bwysig iawn o'ch gwaith, ac mae hynny'n rhywbeth rydych chi'n ei weld hefyd yn y teitlau rydych chi'n eu defnyddio, sy'n aml yn chwaredus iawn, yn ddoniol iawn. Mae'n ddiddorol sut mae'r ffigurau hyn, maen nhw bron wedi'u osod yn y dirlun hon, ond nid yw wedi'i ddiffinio'n llwyr sydd... Fodd bynnag, yng nghyfnod diweddarach eich gwaith gwnaethoch archwilio traddodiad paentio tirlun ychydig yn fwy, ond mae'r ymddangosiad hwn o ddiddordeb rywsut yn hanes paentio tirlun, yr ydym yn weld gyda'r anifeiliaid hyn. Ond ydyn nhw'n ddynol? Ydyn nhw'n anifeiliaid? Ydyn nhw'n fwystfilod? Ac mae yna'r syniad hwn o wrthdaro rywsut sy'n dod allan llawer.

Ac efallai y byddai hwn yn bwynt da i symud i'r ystafell nesaf, oherwydd rydych chi hefyd wedi gwneud cerfluniau. Gyda'r 'Le Salo et les Salopards' hwn, sef yr ymdeimlad yma o baentiad tri dimensiwn.

Yr ydym yn dod o hyd i'r ddau yn y paentiadau eu hunain, ond yna rydych chi wedi'u harchwilio, ar yr adeg hon, mae'n debyg, trwy ffurf, trwy greu'r tri hyn a'r cerfluniau hyn y gwnaethoch chi baentio.

JDJ: Ond nid ydyn nhw'n paravent (sgriniau), nid oes ganddyn nhw stori, nid ydyn nhw'n adrodd straeon. Wel mae'r rhain yn naratif iawn, maen nhw wir yn adrodd straeon.

JD: Wrth siarad am straeon, a hefyd am y paentiadau yma, efallai y gallech siarad am y rhain oherwydd mae hyn yn ddiddorol iawn oherwydd mae'r rhain, y TV Drawings hyn a wnaethoch.

JDJ: Nid paentiadau ydyn nhw, maen nhw'n ddarluniau ac mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n ddu a gwyn oherwydd ar yr adeg honno prin oedd yna deledu, wel dwi ddim hyd yn oed yn gwybod a oedd teledu lliw yn bodoli. Felly, dwi wir ddim yn cofio, hynny yw i chi beth allai pobl edrych i fyny, ond yna dechreuodd fy nheledu lliw fod yn lliwiau rhyfedd iawn. Maen nhw'n brin... Fe wnaethon nhw bylu hefyd. Hynny yw, rwy'n golygu fy mod yn ei adael fel yna. Fe wnes i ychydig o gywiriadau yn ddiweddar iawn, flwyddyn yn ôl, oherwydd roeddwn i'n meddwl ei fod angen rhywbeth. Mae'r glas wedi pylu, mae'r melyn yn, ond does dim ots gen i'r melyn. Ond yn y du a'r gwyn nid yw'n pylu o gwbl, a tybed a oedd y teledu wedi pylu.

JD: Wel, mae hwn hefyd yn bwynt lle mae lliw yn dechrau ymddangos yn llawer mwy.

JDJ: Ond roeddwn i bob amser yn hoffi, ac yn dal i wneud, mae lluniadu fel graffig gwyn. Mae'n dibynnu ychydig, wrth gwrs mae'n lliw i mi, mae lithograffeg, sgrin sidan, yn dibynnu. Ond mae ysgythru yn hollol, dim ond du a gwyn dwi'n ystyried, hynny yw ei fod yn ffordd hollol wahanol o weithio. Ac mae lluniadu bob amser yn fath o ddu a gwyn, tra ar hyn o bryd dwi'n gwneud luniadau mawr iawn sy'n lliw i gyd. Felly, nid yw fy theori yn gweithio allan bob amser.

JD: Ac eto mae yna newid yma, yn y Billiard Series, mewn estheteg, motiffau rydych chi'n eu defnyddio. Mae hwn yn gyfnod diweddarach yn tydi? A beth oedd o ddiddordeb i chi yn y biliards?

Efallai y gallech chi siarad am hynny, pam mae'r motiff hwn y gwnaethoch chi ei ailadrodd cryn dipyn?

JDJ: Oherwydd roedd yn ei weld llawer, oherwydd roedd fy mhartner ar y pryd yn chwarae llawer o filiards.

JD: Mae'r ffigur hwn ar y dde yn eithaf diddorol, mae'n atgoffa rhywun, rydych chi'n gwybod eich bod chi'n gweld math o Francis Bacon. Rwy'n gwybod bod Francis Bacon yn ddylanwad mawr ar eich gwaith. Rwyf wrth fy modd â'r paentiad hwn gymaint oherwydd unwaith eto mae'n fath o ddadadeiladu rheoleidd-dra, a'r math o ddull llinellol o, ti'n gwybod, y dull esthetig sydd gennych, sy'n rhywbeth... Nid oes byth ymdeimlad o linoled, ac yma rydym yn gweld hyn mewn ffordd rydych chi wedi defnyddio rhai arddulliau artistig, ac yna eu harchwilio, ac arbrofi gyda nhw, ac yna symud ymlaen i arddull esthetig arall. Ac mae hynny'n rhywbeth rydych chi wedi'i ddefnyddio... Wel dyna pam roedd gennym ni ddiddordeb mewn ffordd, yr adeiladwaith o'r arddangosfa oedd y syniad hwn o, ti'n gwybod, anlinoled mewn ffordd. A pham roedd gennym ni ddiddordeb yn yr Upstairs Downstairs Series fel math o drosiad mewn ffordd i'ch paentiad.

JDJ: Mae hynny'n ddiddorol iawn, hynny yw rwy'n gwranddo ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud, oherwydd mae'n rhywbeth nad ydw i'n ei weld. Mae gen i wahanol fath o... Wel efallai nad oedd gen i bryd hynny, dwi ddim yn cofio, ond er enghraifft yr un yma, pan wnes i'r rhan fach drydanol hon, maen nhw hefyd yn edrych fel llygod bach yn edrych. Ond roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth mwy cysyniadol ynddo, ac yn y diwedd roedd y paentiadau Billiard, a fydd i'w gweld ym Mharis ar ôl yr arddangosfa. Ac yn ddu, yn lle bod yn wyrdd, oherwydd oddi tano mae yna lechi, sy'n ddiddorol iawn ers i ni fynd trwy'r holl fwyngloddiau llechi hyn ddoe. Mae'n llechen, ac mae'n ddu, ac rydw i'n golygu o dan y brethyn, mae brethyn ar y bwrdd biliards, sydd ar ben llechen, felly yn y diwedd... Dyma un o'r rhai cyntaf o'r rhai olaf. Yna fe'i gwnes yn ddu, dwi ddim yn gwybod pam wnes i ei wneud yn wyn. Hynny yw mai dychymyg yw hynny, ond y llechen sy'n hanfodol i'r bwrdd biliards. Hynny yw mai'r hanfodol yw'r bwrdd biliards gwyrdd wrth gwrs, ond ar y llaw arall - mae'r llechen yn gwneud hynny...

JD: Mae'n ei gwneud hi'n haws i rollo'r bêl, iawn doeddwn i ddim yn gwybod hynny. Mae hynny'n ddiddorol.

JDJ: Mae'n gyfuniad.

JD: Ac yna, gyferbyn yw'r Serie Noir, sydd ychydig yn hwyrach, sydd eto, am wn i, eto'r syniad hwn o naratif a'r math hwn o ddull sinematograffig o baentio a neu theatr mewn ffordd. Wel theatr yn wir i raddau helaeth, oherwydd mae'r rhain mewn gwirionedd yn seiliedig ar lyfrau ar droseddu.

JDJ: Nid oes gennym unrhyw ddarluniau.

JD: Nad oes unrhyw ddarlun.

JDJ: Dyna yw'r mwyaf hanfodol.

JD: Yn union roedd yn destun i raddau helaeth.

JDJ: Ac edrychais, cymerais deitlau'r llyfrau. Dim ond yr un hon yw'r "Attack on Reagan" nad yw'n Serie Noir, ond hynny yw mai dim ond bod un neu ddau yn y gyfres sydd mewn realiti, a rhoddais ef fel teitl, rhoddais y dyddiad.

JD: Ond mae'r ymdeimlad hwn o, unwaith eto rydym weld trais ac yr erotig hefyd mewn ffordd, ond yn sicr efallai bod llai o hiwmor. Y ddwy gyfres hyn, maen nhw ychydig yn fwy amlwg, mae ganddyn nhw ymdeimlad o... o gymharu â rhai o'ch rhai cynharach.

JDJ: Rwy'n meddwl eu bod yn ddoniol iawn, hynny yw i mi maent yn rhyfedd iawn, gadewch i ni ei roi felly. I'r gwrthwyneb, rwy'n meddwl eu bod yn eironig efallai, yn fwy na... Ac mae hynny hefyd oherwydd roeddwn i wir eisiau gwneud math o ddarlun o'r llyfrau, nad ydyn nhw'n bodoli.

JD: Ond yn sicr, mae'r ymdeimlad o naratif yn rhywbeth sy'n codi cryn dipyn, mewn ffordd sy'n adrodd stori eich bod chi...

JDJ: Ond nhw yw'r stori yn llythrennol.

JD: Yn union, sy'n ddiddorol. Ac yn amlwg yma, ni wnaethom siarad am hyn, ond y math o chwaraëusrwydd erotig y paentiadau hyn.

JDJ: Ie! Ond mae hynny hefyd oherwydd y termau erotig wrth chwarae biliards. Rwy'n golygu bod hynny'n fy sbarduno.

JD: Felly efallai gallwn symud i'r ystafell nesaf, sef eich paentiadau diweddarach, ac yma rydyn ni'n gweld adfywiad rhai o'ch, efallai o'ch gweithiau cynharach. Ac mae'r mathau hyn o ffigurau gwrthun sy'n ailymddangos, ac mae'n debyg mai un o'r themâu cyffredin yn y paentiadau hyn yw eich diddordeb mewn tirluniau a phaentiadau tirlun mewn ffordd, y dirlun sy'n dod yn ôl.

JDJ: Tirlun yn fy mhaentiadau? Rydych chi'n digwydd gwybod fy mod i wedi gwneud rhai paentiadau tirlun gydag endidau rhyfedd, ond mae hyn yn seiliedig ar y paentiad gan gyfres enwog o weithiau gan Francis Bacon, a gymerodd ddelwedd, un ddelwedd, o Van Gogh sef y Ffordd i Arles a honno yn amlwg iawn yr un lliwiau a'r un cyfeiriad o'r ffordd, tra bod hon yn rhan o gyfres a wnes i ar ynys... Wel na, mi wnes i, mi wnes i'r un cyntaf ar ynys Schiermonnikoog, nad yw'n Gymraeg, mae'n air Iseldireg. Ac nid yw hynny yma, mae'r un yna yn rhywle yn y casgliad. Ac yno wnes i, wel roedd bob un ohonyn nhw yn ymwneud â'r hela, a'r môr wrth gwrs, gan ei bod hi'n ynys. Ond roedd yna lawer o hela, ac roeddwn i wedi fy syfrdanu am yr hela

'ma, wrth i'r anifeiliaid gerdded o gwmpas... Yr anifeiliaid maen nhw'n eu hela, maen nhw'n ceisio eu lladd, gallent gymryd nhw o'r llawr gan fod nhw'n cerdded o gwmpas yn agos iawn at y bobl. Wrth gwrs, mae tirlun, mae hynny'n wir. Ac yno wrth gwrs mae gennych chi'r geifr a'r gwartheg...

JD: Rwy'n gwybod ein bod wedi gweld ...

JDJ: A'r defaid a welsom ddoe.

JD: A Mynyddoedd Eryri.

JDJ: Ond dyna'r un peth, fe wnes i yn Ffrainc lle dwi'n byw, yn rhannol. A dyna'r un anifeiliaid sy'n byw yno.

Ac mae gen i un anifail sydd fy hoff un o bell ffordd, a dyna'r un yn y gornel dde.

JD: Doeddwn i ddim wedi sylwi arno.

JDJ: Nid yw pobl yn ei weld, mae'n gudd iawn.

JD: Sy'n fy atgoffa, yn ystyr y ffigurau bach hyn yng nghornel dde'r paentiad hwn.

JDJ: Ond y ddau baentiad hynny, y paentiadau cychwynnol sy'n hollol wahanol i'r ddau baentiad hynny, oherwydd mi wnes i ei baentio drosodd, yr unig rannau mewn gwirionedd arhosodd fel yr oedd yw rhan yr anifail, a chawsant eu gwneud yr un cyfnod.

JD: Maen nhw o 2012. Felly efallai y dylen ni symud i'r nesaf, yr ystafell olaf, felly mewn ffordd, y ffordd roedden ni'n ystyried yr arddangosfa hon oedd creu ymwelwyr pan gyrhaeddodd nhw MOSTYN, gweld y gyfres hon fel y gyfres gyntaf, a dyma hefyd y gyfres olaf a welwch. Ac wrth feddwl am yr arddangosfa, roedden ni eisiau gwneud hyn mewn ffordd, y math o graidd y sioe. Mae'r rhain yn baentiadau a wnaethoch ar gyfer neuadd y dref yn Amsterdam, fel comisiwn ar gyfer neuadd y dref. A'r grisiau yw'r motiff cylchol hwn sydd gennych, sef grisiau neuadd y dref. Ac yma eto welwn y ffigurau hybrid hyn sy'n ailymddangos mewn ffordd drwyddi draw. A beth rydw i'n ei weld, mae'r un yma hefyd yn wahanol iawn mewn ffordd i bob un o'r lleill ac rydw i bob amser, pan welaf hyn, yn meddwl am baentiad Oskar Schlemmer o'r Bauhaus.

JDJ: Yn hollol, yn hollol, mae wedi ei ysbrydoli gan y paentiad Schlemmer ac roeddwn yn hapus iawn pan wnaethoch chi ddarganfod ei fod. Wel y gwahaniaeth mawr, hanfodol, yw fy mod i wedi bod yn llunio ar y cynfas crai gyda'r paentiad hwn, a'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn y gyfres, oherwydd mae yna 25 yn y gyfres.

Rydych chi'n eu hadnabod, ond nid yw'r cyhoedd yn eu hadnabod, oherwydd maen nhw wedi bod, fe allech ddweud bron yn gudd mewn neuadd dref, ac maen nhw bellach mewn amgueddfa. Ond mae'r rhain yn cael eu llunio gyntaf ar y cynfas. Wel mae'r un yma wedi'i phaentio'n uniongyrchol, hynny yw mai yna wahaniaeth, mae yna wahaniaeth mewn ystum. Pan rydych chi'n darlunio neu pan Wel does dim tryloywder yno mewn gwirionedd yn yr un ffordd ag y mae yma, oherwydd ei fod newydd ei baentio. Hynny yw fy mod wedi ceisio ei wneud gyda'r

symudiad i ryw faint o dryloywder. Wel yr un yma, a oedd mewn gwirionedd yn un yr oedd fy ngŵr Tom yn berchen arno, oherwydd ei fod yn credu mai hwn oedd yr un gorau. Mae ganddo'r cyfuniad o...

JD: Wel, yn sicr, mae'n un o fy ffefrynnau.

JDJ: Mae'n gryf iawn, hynny yw ei fod ychydig wrth gwrs, wel ychydig bach, yn amlwg yn Francis Bacon eto, yn rhan ohono, hynny yw yn ei strwythur. Jfyddwch chi'n paentio'r mae'r tryloywder, oherwydd roeddwn i eisiau'r tryloywder hwn fel nad yw mor glir.

JD: Ac o hyd y ffigyrau o ddreigiau gwrthun bach...

JDJ: A dweud y gwir rydw i'n eu defnyddio, dwi'n meddwl, mae hyn yn rhyfedd iawn, rydw i wedi bod yn gwneud tri llun mawr, mawr ac mae ganddyn nhw yn union yr un anghenfil. Rydw i'n mynd i'w ddangos. Byddaf yn dangos i chi'r lluniau na wnes i eu hanfon atoch. Mae dau ohonyn nhw'n mynd i'r arddangosfa yn Efrog Newydd ac mae un yn cael ei brynu gan y clwb. Ac mae'n union hyn. Mae hyn yn rhyfedd iawn. Dim ond nawr y sylweddolais fy mod yn dal i ddefnyddio'r anghenfilod hyn. Mae hyn 40 mlynedd ar ôl gwaith. Mae'n debyg bod rhywbeth o'i le gyda mi.

JD: Ac rydyn ni yng ngwlad Cymru a'r ddraig yn genedlaethol yw...

JDJ: Yn union!

JD: Ar y fflag genedlaethol ac mae yna ddreigiau.

JDJ: Ac maen nhw bob amser yn y gornel.

JD: Maen nhw bob amser yn y gornel.

JDJ: Maen nhw wedi'u cornelu!

JD: Mae yna bob amser y math o ffigurau gwrthun tebyg i Goya, sy'n ailymddangos yn rhywle bron yn ychydig yn gythreulig...

JDJ: Fel Goya, ... dylanwadau pwysig wrth gwrs.

JD: Y rydyn ni wedi gweld yn boddi, rydych chi'n gwybod bod y ffigurau bach hyn, y ffigurau bach cythreulig hyn yn y dde uchaf.

JDJ: Ni aethon ni i Tureluurs

JD: Gadewch i ni gael golwg.

JDJ: Tybed a oes anghenfil yno.

JD: Gadewch i ni gael golwg.

JDJ: Nid wyf yn credu bod anghenfil yno. Rwy'n credu mai anghenfilod ydyn nhw i gyd.

JD: Felly, mae gennym ni nhw yma, mewn ffordd.

JDJ: Na, nid anghenfilod ydyn nhw.

JD: Nid ydyn nhw ond mae ganddyn nhw ...

JDJ: Maen nhw'n giwt iawn.

JD: Maen nhw'n giwt ond hefyd yn eithaf cythreulig, tebyg i ddiabol. Maen nhw'n fy atgoffa o'r Goya 'Pan mae rheswm yn cysgu'r meddwl...' anghofiais yr enw llawn. Ond mae angenfilod yma hefyd, wel mae yna un yn y canol, ac mae hon yn un o gyfres a wnaethoch chi yn ystod y cyfnod cyfyngu yn 2020.

JDJ: Ie, wel mewn gwirionedd ychydig cyn cyfyngu. Ond mae'r rhan hon o'r ffin...

JD: Ie, mae'n gyfres ffiniol.

JDJ: Felly ni ddefnyddiais yr anghenfil gwyrdd yma. Mae'n un arall ...

JD: Ond, mewn ffordd, mae hwn yn fwy o baentiad tirlun a wnaethoch. Roedd yn berfformiad y gwnaethoch chi fel rhan o sioe ffasiwn yn Amsterdam, onid oedd?

JDJ: Dechreuais ef yn y sioe ffasiwn ac yna ei orffen yn nes ymlaen yn y stiwdio.

JD: Ac eto rydych chi'n archwilio'r syniad o dirluniau. Ond eto, mae yna fath o ymddangosiad mewn ffordd fel y paentiadau cyntaf i chi eu gwneud o'r ffigurol...

JDJ: Ie, mae hynny'n wir, ie.

JD: Felly rydyn ni'n fath o ddychwelyd yn ôl i ...

JDJ: Mae'n llawer mwy rhydd.

JD: Mae'n llawer mwy rhydd yn sicr na'r Billiards. Ac mae'r math hwn o bethau tebyg i anifeiliaid, nid ydym yn siŵr, gallent fod yn fynyddoedd.

JDJ: Dyna beth welsem ni ddoe.

JD: Yn union ac yn ddigon ffodus mae Eryri yma.

JDJ: Mae'n edrych fel Eryri.

JD: Mae'n wir.

JDJ: Ydy, mae'n wir. Rydych chi'n iawn.

JD: Wel dyma fy ... Diddorol, math o, maen nhw'n wynebu mynyddoedd Eryri ond unwaith eto mae'r adfywiad hwn o'r ffigurau tebyg i angenfilod yn ailymddangos. Ac yna ar y dde mae gennym ni baentiad gwahanol iawn rydych chi wedi'i wneud, sef eich hunanbortread, a gafodd ei wneud ar liain hwylio.

JDJ: Do, mi wnes i lawer o weithiau ar lieiniau hwylio.

JD: Ac yma mwy, am wn i, yn llai haniaethol na'r lleill i gyd.

JDJ: Maen nhw bron yn 30... Fy Nuw, dyna 30 mlynedd yn ôl yr un yma. Bron nawr. 33.

JD: Ac mae lliain hwylio yn rhywbeth y gwnaethoch chi lawer, fe ddangosoch chi, rydych chi'n defnyddio lliain hwylio fel fformat ar gyfer eich gwaith. Ac yn ystod y cyfnod hwn...

JDJ: Dyna'r deunydd sy'n ddiddorol iawn.

JD: A pham lliain hwylio? Pam oedd gennych chi ddiddordeb mewn defnyddio lliain hwylio?

JDJ: Ar liain hwylio? Oherwydd mi ges i'r gorchymyn hwn wedi'i gomisiynu ar gyfer y banc yn Drachten. Ac mae Drachten yng ngogledd yr Iseldiroedd, maen nhw'n hwylio yno'n bennaf, ac roedd i'r Banc Cenedlaethol, y Natural Dutch Bank, yng ngogledd yr Iseldiroedd a oedd â'r Friesland yn ei alw'n 'brenter'. Roedd yn ffens y bu'n rhaid i mi ei gwneud, nad yw yma, rwy'n siŵr mai Miami fydd hi, Basel. Bydd i'w weld. A dyna ffens fawr iawn o saith metr, sydd wedi'i phaentio ar y ddwy ochr. A phan gefais y comisiwn i wneud hynny, roeddwn i'n meddwl bod yn rhaid iddo fod yn hwyl, felly dechreuais weithio ar hwyl, yna roeddwn i'n meddwl fy mod i'n cael pob math o ddarnau a darnau o liain hwylio, ac roeddwn i'n meddwl ei fod yn ddeunydd rhyfeddol. Mae hefyd yn wahanol iawn i gynfas. Hynny yw, mae'n gynfas, wedi'i baratoi, ac mae'n cael ei baratoi yn erbyn dŵr felly mae'n eithaf anodd gweithio arno. Mae'n rhaid i chi wneud, mae'n rhaid i chi ddarganfod beth yw'r paratoad, ac yna ei newid yn rhywbeth sy'n amsugno'r paent. Felly dyna pam rydw i'n defnyddio lliain hwylio, dim ond math o beth ymarferol, ond roeddwn i'n ei hoffi yn fawr iawn. Ac mae gan hwn bapur arno. Nid wyf yn gwybod pam wnes i roi papur arno.

JD: Mae papur arno?

JDJ: Mae yna lawer o bapur arno. Dyna pam y bu'n rhaid ei adfer, oherwydd y papur. Rydych chi'n ei weld y rhan hon, mae'r cyfan yn bapur. Ydych chi'n gallu gweld y gwahaniaeth?

JD: Gwelaf, wrth gwrs, ar eich wyneb.

JDJ: Nid wyf yn cofio pam y gwnes i hynny, ond yn amlwg fe wnes i.

JD: Wel, diolch yn fawr iawn Jacqueline.

JDJ: Diolch.